

Mae'r trosolwg hwn o'r cwrs yn rhoi crynodeb manwl o'r rhaglen BMus (Anrh) a gynigir o fis Medi 2022. A fyddych chiystal â nodi er bod y wybodaeth yn adlewyrchu'r rhaglen a gynigir i offerynwyr a chantorion o'r dyddiad hwn, gall gael ei haddasu a'i newid mewn blynyddoedd i ddod. Ymgynghorir bob amser â myfyrwyr ynglŷn â newidiadau o'r fath a bydd manylion ar gael i ymgeiswyr sydd â chynigion. Mae pob blwyddyn o'r cwrs yn werth 120 credyd. Er mwyn symud drwy bob blwyddyn bydd angen i'r myfyrwyr fel arfer lwyddo ym mhob modiwl.

Blwyddyn 4	Modiwlau Prif Lwybr (80 credyd) a Modiwlau Astudiaethau Proffesiynol (40 credyd)	Modiwlau Prif Lwybr (60 credyd) a Modiwlau Astudiaethau Proffesiynol (60 credyd)		Modiwlau Prif Lwybr (40 credyd) a Modiwlau Astudiaethau Proffesiynol (80 credyd)	
Blwyddyn 3	Prif Astudiaeth III	Cydweithredu III	Ymgysylltu III	Arbenigedd Dewisol 1	Arbenigedd Dewisol 2
Blwyddyn 2	Prif Astudiaeth II	Cydweithredu II	Ymgysylltu II	Cerddor Integredig II	Astudiaethau Cyd-destunol II
Blwyddyn 1	Prif Astudiaeth I	Cydweithredu I	Ymgysylltu I	Cerddor Integredig I	Cerddoriaeth a Chymdeithas I

## BLWYDDYN UN 120 credyd

Bydd myfyrwyr yn astudio UN modiwl craidd gwerth 40 credyd, UN modiwl craidd gwerth 30 credyd, DAU fodiwl craidd gwerth 20 credyd ac UN modiwl craidd gwerth 10 credyd.

### Prif Astudiaeth I

Modiwl Craidd: 40 Credyd

Asesiad: Perfformiad (80%), Technegol (Llwyddo/Methu), Gwaith Cwrs (20%)

Mae ffocws y modiwl hwn o fewn hyfforddiant prif astudiaeth pob myfyriwr, a fydd ar sawl ffurf. Mewn gwrsi 1-1 caiff myfyrwyr eu harwain i ddatblygu eu meistrolaeth o dechneg, gwybodaeth am arddull a'r gallu i gyfathrebu trwy berfformiad. Bydd gwaith yn y meysydd datblygiad craidd hyn yn cael ei ehangu trwy ystod o ddsbarthiadau perfformio a dosbarthiadau meistr, a fydd hefyd yn rhoi arweiniad ar sut y gall myfyrwyr wneud y defnydd gorau o'u hamser yn yr ystafell ymarfer ac mae'n cynnwys strategaethau i feithrin dull iach a chynaliadwy. Gellir ymdrin â materion cysylltiedig sy'n ymwneud ag arddull, cyd-destun a chreu cerddoriaeth ymarferol mewn dosbarthiadau adrannol, a fydd yn cefnogi datblygiad sgiliau penodol ar gyfer perfformio genre penodol neu ddewis repertoire.

Mae dosbarthiadau perfformio grŵp amrywiol yn rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr gael profiad o gyfathrebu trwy berfformiad, tra bydd dosbarthiadau meistr achlysurol gan berfformwyr blaenllaw ar ymweliad yn rhoi cyd-destun cerddorol a phroffesiynol trosfwaol. Mae hefyd angen mynychu, fel sy'n briodol, berfformiadau sy'n rhan o raglen

perfformiadau cyhoeddus y Coleg ac anogir myfyrwyr i ddatblygu eu hymatebion dadansoddol a beirniadol personol i berfformiadau trwy ymgysylltu â'r adnodd dysgu hwn.

Darperir hyfforddiant sgiliau sylfaenol hefyd mewn technegau sain a fideo i gefnogi myfyrwyr i wneud recordiadau personol a rhannu gwaith i danategu eu creadigrwydd. Datblygir dulliau hunanwerthuso a myfyrio i lywio datblygiad personol, cefnogi arferion cynaliadwy a thracio cynnydd artistig trwy gydol y flwyddyn ac fe'u cesglir mewn e-bortffolio personol. Fel arfer cefnogir myfyrwyr trwy gyfrwng tiwtorialau i gael adborth ffurfiannol am eu gwaith e-bortffolio personol.

### **Cydweithredu 1 (Offerynnau Cerddorfaol a Band)**

Modiwl Craidd: 30 Credyd

Asesiad: 40% a 40% dau berfformiad ensemble a asesir, 10% a 10% dau adroddiad tiwtor

Nod y modiwl hwn yw rhoi'r cyfle i fyfyrwyr ddatblygu eu galluoedd a'u gwybodaeth sylfaenol o berfformio cerddoriaeth mewn ystod o gyd-destunau cydweithredol (ensembles llai, heb eu cyfarwyddo yn ogystal ag ensembles mwy, wedi'u cyfarwyddo).

Cyflwynir y modiwl drwy ensembles/grwpiau cerddorol bach a mawr fel sy'n briodol i'r llwybr arbenigol. Cefnogir myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau cerddorol, ymarferol, cyflwyno, cyfathrebu a chydweithio mewn tîm trwy ystod o weithgareddau rihysal a pherfformio, tra hefyd yn datblygu eu hymwybyddiaeth o'r disgwyliadau a'r moesegau proffesiynol sydd eu hangen mewn sefyllfaoedd rihysal a pherfformio ensembles proffesiynol.

Ochr yn ochr â sesiynau wedi'u tiwtora, anogir myfyrwyr i ddatblygu eu technegau arweinyddiaeth a rihysio creadigol a cherddorol eu hunain mewn gwaith ensemble heb ei gyfarwyddo.

Mae gwerthuso cyfraniadau a datblygiad sgiliau unigol pob myfyriwr unigol drwy gydol y modiwl yn y camau paratoi a rihysal cyn perfformiad, ynghyd â'u hymgysylltiad mewn bodloni protocolau ac anghenion ensemble proffesiynol, yn elfennau pwysig o'r modiwl hwn, a chydnyddir datblygiad myfyrwyr yn y meysydd hyn drwy fewnbwn gan diwtoriaid.

Bydd asesiad perfformiad crynoddol a sgiliau ensemble yn rhoi cyfle i fyfyrwyr arddangos ystod o sgiliau cydweithredol mewn perfformiad.

### **Cydweithredu 1 (Allweddellau)**

Modiwl Craidd: 30 Credyd

Asesiad: 40% a 40% Dau Berfformiad Ensemble a Asesir, 10% a 10% Dau Adroddiad Tiwtor

Nod y modiwl hwn yw rhoi cyfle i fyfyrwyr ddatblygu eu galluoedd a'u gwybodaeth sylfaenol o berfformio cerddoriaeth mewn ystod cydweithredol.

Cyflwynir y modiwl drwy ensembles/grwpiau cerddorol bach a mawr fel sy'n briodol i'r llwybr arbenigol. Cefnogir myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau cerddorol, ymarferol, cyflwyno, cyfathrebu a chydweithio mewn tîm trwy ystod o weithgareddau rihysal a pherfformio, tra hefyd yn datblygu eu hymwybyddiaeth o'r disgwyliadau a'r moesegau proffesiynol sydd eu hangen mewn rihysal a pherfformio ensembles proffesiynol.

Ochr yn ochr â sesiynau wedi'u tiwtora, anogir myfyrwyr i ddatblygu eu technegau arweinyddiaeth a rihysio creadigol a cherddorol eu hunain mewn gwaith ensemble heb ei gyfarwyddo.

Mae gwerthuso cyfraniadau a datblygiad sgiliau unigol pob myfyriwr unigol drwy gydol y modiwl yn y camau paratoi a rihysal cyn perfformiad, ynghyd â'u hymgysylltiad mewn bodloni protocolau ac anghenion ensemble proffesiynol, yn elfennau pwysig o'r modiwl hwn, a chydnyddir datblygiad myfyrwyr yn y meysydd hyn drwy fewnbwn gan diwtoriaid.

### **Cydweithredu 1 (Llais)**

Modiwl Craidd: 30 Credyd

Asesiad: 40% a 40% Dau Berfformiad Ensemble a Asesir, 10% a 10% Dau Adroddiad Tiwtor

Nod y modiwl hwn yw rhoi cyfle i fyfyrwyr ddatblygu eu galluoedd a'u gwybodaeth sylfaenol o berfformio cerddoriaeth mewn cyd-destun cydweithredol. Cyflwynir y modiwl drwy ensembles/grwpiau cerddorol bach a mawr fel sy'n briodol i'r llwybr arbenigol. Cefnogir myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau cerddorol, ymarferol, cyflwyno, cyfathrebu a chydweithio mewn tîm trwy ystod o weithgareddau rihysal a pherfformio, tra hefyd yn datblygu eu hymwybyddiaeth o'r disgwyliadau a'r moesegau proffesiynol sydd eu hangen mewn rihysal a pherfformio ensembles proffesiynol.

Ochr yn ochr â sesiynau wedi'u tiwtora, anogir myfyrwyr i ddatblygu eu technegau arweinyddiaeth a rihysio creadigol a cherddorol eu hunain mewn gwaith ensemble heb ei gyfarwyddo.

Mae gwerthuso cyfraniadau a datblygiad sgiliau unigol pob myfyriwr unigol drwy gydol y modiwl yn y camau paratoi a rihysal cyn perfformiad, ynghyd â'u hymgysylltiad mewn bodloni protocolau ac anghenion ensemble proffesiynol, yn elfennau pwysig o'r modiwl hwn, a chydabyddir datblygiad myfyrwyr yn y meysydd hyn drwy fewnbwn gan diwtoriaid.

### **Cydweithredu 1 (Gitâr)**

Modiwl Craidd: 30 Credyd

Asesiad: 40% Perfformiad Ensemble, 10% Adroddiadau Tiwtor, 30% Trefniannau Gitâr a Asesir, 20% Adroddiad Tiwtor

Nod y modiwl hwn yw rhoi cyfle i fyfyrwyr ddatblygu eu galluoedd a'u gwybodaeth sylfaenol o berfformio cerddoriaeth mewn cyd-destun cydweithredol.

Cefnogir myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau cerddorol, ymarferol, cyflwyno, cyfathrebu a chydweithio mewn tîm trwy ystod o weithgareddau rihysal a pherfformio, tra hefyd yn datblygu eu hymwybyddiaeth o'r disgwyliadau a'r moesegau proffesiynol sydd eu hangen mewn rihysal a pherfformio ensembles proffesiynol.

Ochr yn ochr â sesiynau wedi'u tiwtora, anogir myfyrwyr i ddatblygu eu technegau arweinyddiaeth a rihysio creadigol a cherddorol eu hunain mewn gwaith ensemble heb ei gyfarwyddo.

Mae gwerthuso cyfraniadau a datblygiad sgiliau unigol pob myfyriwr unigol drwy gydol y modiwl yn y camau paratoi a rihysal cyn perfformiad, ynghyd â'u hymgysylltiad mewn bodloni protocolau ac anghenion ensemble proffesiynol, yn elfennau pwysig o'r modiwl hwn, a chydabyddir datblygiad myfyrwyr yn y meysydd hyn drwy fewnbwn gan diwtoriaid.

### **Cydweithredu Creadigol 1**

Modiwl Craidd: 30 Credyd

Asesiad: 50% Allbwn Prosiect, 20% Adroddiad Tiwtor, 30% Asesiad Hunanfyfyrliol

Bydd y modiwl sylweddol hwn yn rhoi rhyddid i fyfyrwyr archwilio a datblygu eu galluoedd a'u gwybodaeth sylfaenol o gerddoriaeth a pherfformiad creadigol o fewn prosiect cydweithredol penodol. Fel arfer bydd prosiectau yn sylweddol o ran eu cwmpas ac yn gofyn am ymrwymiad dros gyfnod estynedig o amser. Rhaid i gyfranogiad myfyrwyr mewn prosiectau gael ei gytuno gan Arweinydd y Modiwl a'r Pennaeth Astudio perthnasol cyn dechrau gwaith ar y prosiect.

Cyflawnir y modiwl drwy ymgymryd â phrosiect cydweithredol gydag ensemble cerddorol bach neu fawr neu grŵp creadigol rhyngddisgyblaethol, fel sy'n briodol i friff y prosiect, a bydd yn cefnogi ethos o archwilio repertoires, genres, arddulliau a dulliau amrywiol, gan annog rhyddid creadigol a mynegiant o fewn gwaith cydweithredol.

Cefnogir myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau creadigol, ymarferol, cyflwyno, cyfathrebu a chydweithredu trwy ystod o weithgareddau rihysal a pherfformio, ynghyd â datblygu ymwybyddiaeth o unrhyw ddisgwyliadau a moesegau proffesiynol sydd eu hangen mewn sefyllfaoedd rihysal a pherfformio cydweithrediad creadigol penodol. Ochr yn ochr â sesiynau wedi'u tiwtora, anogir myfyrwyr i ddatblygu eu technegau arweinyddiaeth a rihysio creadigol a cherddorol eu hunain mewn gwaith ensemble heb ei gyfarwyddo.

Mae gwerthuso cyfraniadau a datblygiad sgiliau unigol pob myfyriwr unigol drwy holl gamau'r prosiect, ynghyd â'u hymgysylltiad mewn bodloni protocolau ac anghenion ensemble proffesiynol, yn elfennau pwysig o'r modiwl hwn. Cydnabyddir y datblygiad hwn drwy adroddiadau asesiad parhaus gan diwtoriaid.

### **Cerddor Integredig 1**

Modiwl Craidd: 20 Credyd

Asesiad: 60% Portffolio o ymarferion harmoni, 30% Canfyddiad sain y glust a phrofion clust, 10% Cyfranogiad corawl a dawn gerddorol gorfforol

Bydd y modiwl hwn yn canolbwyntio ar ddatblygiad sgiliau sylfaenol ym meysydd harmoni, sain y glust a dawn gerddorol gorfforol ac fe'i cyflwynir trwy ystod o gyd-destunau a dulliau addysgu. Bydd gweithdai grŵp bach yn cefnogi datblygiad dealltwriaeth mewn harmoni tonyddol a ffurf, gydag ymarferion ysgrifenedig a dadansoddiadau yn cael eu defnyddio i gryfhau a datblygu dealltwriaeth mewn adnabod a defnyddio ystod o gordiau a dilyniadau diatonig a cromatig syml, arwain llais a thrawsgyweirio. Defnyddir dau ddull ar gyfer datblygu sgiliau sain y glust: gweithgarwch corawl a seminarau. Bydd cyfranogi'n rheolaidd mewn sesiynau côr yn meithrin hyder hollbwysig mewn ystod o sgiliau sain y glust, sgiliau cerddorol a chorfforol (er enghraifft, canu, rhythm, darllen ar yr olwg gyntaf a gwaith byrfyfyr) ac fel arfer fe'u cefnogir gan sesiynau grŵp llai neu hyfforddiant y glust unigol. Bydd y repertoire a genir mewn côr yn cynnwys ystod eang o arddulliau cerddorol, gan gynnwys cân Affricanaidd, Raga Indiaidd, Emynau Hwyllog a Roc/Pop yn ogystal â Cherddoriaeth Glasurol y Gorllewin. Hyrwyddir dawn gerddorol integredig a chorfforol ymhellach drwy ddisbarthiadau mewn hanfodion techneg Alexander a dulliau meddwl/corff ategol.

### **Cerddor Integredig 1 (Allweddellau)**

Modiwl Craidd: 20 Credyd

Asesiad: 60% Portffolio o ymarferion harmoni, 30% Canfyddiad sain y glust a phrofion clust, 10% Cyfranogiad corawl a dawn gerddorol gorfforol

Bydd y modiwl hwn yn canolbwyntio ar ddatblygiad sgiliau sylfaenol ym meysydd harmoni yr allweddellau, darllen ar yr olwg gyntaf, bas rhifoledig a continuo, hyfforddiant sain y glust a dawn gerddorol gorfforol ac fe'i cyflwynir trwy ystod o gyd-destunau a dulliau addysgu. Bydd gweithdai grŵp bach yn cefnogi datblygiad dealltwriaeth mewn harmoni tonyddol a ffurf, archwiler technegau ar gyfer datblygu gallu darllen ar yr olwg gyntaf, gan bwysleisio'r rôl a chwaraeir gan ddealltwriaeth mewn darllen ar yr olwg gyntaf llwyddiannus. Defnyddir dau ddull ar gyfer datblygu sgiliau sain y glust: gweithgarwch corawl a seminarau. Bydd cyfranogi'n rheolaidd mewn sesiynau côr yn meithrin hyder hollbwysig mewn ystod o sgiliau sain y glust, sgiliau cerddorol a chorfforol er enghraifft, canu, rhythm, darllen ar yr olwg gyntaf a gwaith byrfyfyr ac fel arfer fe'u cefnogir gan sesiynau grŵp llai neu hyfforddiant y glust unigol. Bydd y repertoire a genir mewn côr yn cynnwys ystod eang o arddulliau cerddorol, gan gynnwys cân Affricanaidd, Raga Indiaidd, Emynau Hwyllog a Roc/Pop yn ogystal â Cherddoriaeth Glasurol y Gorllewin. Hyrwyddir dawn gerddorol integredig a chorfforol ymhellach drwy ddisbarthiadau mewn hanfodion techneg Alexander a dulliau meddwl/corff ategol.

### **Cerddoriaeth a Chymdeithas 1**

Modiwl Craidd: 20 Credyd

Asesiad: 100% Gwaith Cwrs

Drwy gyfres o astudiaethau achos, mae'r modiwl hwn yn ceisio datblygu ymwybyddiaeth o sut y mae cerddorion unigol wedi gweithio o fewn rhwydweithiau i adeiladu eu gyrfaoedd, a hefyd sut y maent wedi trawsnewid rôl cerddoriaeth a cherddorion mewn cymdeithas. Bydd yr achosion a archwiler yn cwmpasu ystod o repertoire ac arddulliau cerddorol yn amrywio o repertoire Clasurol y Gorllewin i Radiohead a Stormzy. Addysgir y cwrs drwy ddau ddull: darlithoedd a seminarau. Cyflwynir astudiaethau achos mewn darlithoedd, a bydd seminarau yn dilyn pob darlith astudiaeth achos er mwyn ehangu'r drafodaeth i ystyried y gwahanol fethodolegau sy'n arwain ymholiad, gan ganolbwyntio ar hanesyddoliaeth. Drwy gydol y modiwl, bydd gofyn i fyfyrwyr wneud gwaith darllen a gwranddo pellach a, phan fo hynny'n bosibl, greu cysylltiadau ar draws eu profiad Coleg. Mae hyn yn cynnwys mynychu perfformiadau cyhoeddus a phrosiectau perfformio yn y Coleg.

### **Ymgysylltu 1\***

Modiwl Craidd: 10 Credyd

Asesiad: 100% Gwaith Cwrs

Bydd y modiwl hwn yn rhoi arweiniad mewn ystod o feysydd sylfaenol yn ymwneud â chreu cerddoriaeth yn y gymuned, ymgysylltu ac egwyddorion hyfforddiant cerddoriaeth.

Bydd sesiynau addysgu cychwynnol yn amlinellu'r gofynion a'r ystyriaethau proffesiynol ar gyfer cynnal prosiectau cerddoriaeth yn y gymuned, gan gynnwys arferion gweithio cynaliadwy, egwyddorion ansawdd, fframweithiau rheoleiddio a diogelu yn ogystal â gofynion eraill ar gyfer arfer cyfranogol cadarn. Fel rhan o addysgu'r modiwl, cefnogir myfyrwyr i feithrin dealltwriaeth o ystod o werthoedd, gwybodaeth ac arferion a fydd yn ffurfio 'Pecyn Cymorth Hanfodol Cerddor yn y Gymuned' cysyniadol gan eu galluogi i wneud dewisiadau a phenderfyniadau gwybodus ar gyfer dyfeisio deunyddiau wrth baratoi ar gyfer gwaith ymarferol.

Bydd gweithdai ymarferol yn canolbwyntio ar sut i ddyfeisio a datblygu prosiect creadigol galluogol, sut i ddewis a chynnwys deunydd priodol, a sut i ddefnyddio ystod o sgiliau'n ymwneud â chyflwyno a chyfathrebu er mwyn gwireddu prosiect yn ymarferol ar gyfer y gymuned. Yn ychwanegol at y gwaith hwn, arweinir myfyrwyr mewn datblygiad technegau gwerthuso ac arfer myfyriol fel sy'n briodol i'r cyd-destun proffesiynol. Gan weithio mewn grwpiau, bydd myfyrwyr yn dyfeisio ac yn recordio perfformiad cerddorol neu ddigwyddiad tebyg ar fideo, sy'n addas ar gyfer ei ledaenu i leoliad cymunedol penodol.

\*Bydd angen tystysgrif DBS ar gyfer y modiwl hwn.

## **BLWYDDYN DAU 120 Credyd**

**Bydd myfyrwyr yn astudio UN modiwl craidd gwerth 40 credyd, UN modiwl craidd gwerth 30 credyd, DAU fodiwl craidd gwerth 20 credyd ac UN modiwl craidd gwerth 10 credyd.**

### **Prif Astudiaeth 2**

Modiwl Craidd: 40 Credyd

Asesiad: Portffolio (80%), Technegol (Llwyddo/Methu), Gwaith Cwrs (20%)

Mae ffocws y modiwl hwn o fewn hyfforddiant prif astudiaeth pob myfyriwr, a fydd ar sawl ffurf. Addysgir datblygiad pellach meistrolaeth o dechneg, dealltwriaeth o ran arddull a chyfathrebu effeithiol trwy berfformiad mewn gwersi 1:1 a'i ehangu trwy ystod o ddsbarthiadau perfformio a dosbarthiadau meistr.

Bydd y gwersi hyn yn parhau i roi arweiniad ar sut y gall myfyrwyr wneud y defnydd gorau o'u hamser yn yr ystafell ymarfer ac atgyfnerthu strategaethau ar gyfer dulliau iach a chynaliadwy. Bydd materion cysylltiedig sy'n ymwneud ag arddull, cyd-destun a chreu cerddoriaeth ymarferol yn parhau i gael sylw mewn dosbarthiadau adrannol. Bydd y rhain yn cefnogi datblygiad penodol ar gyfer perfformio genre penodol neu ddewis repertoire. Mae dosbarthiadau perfformio amrywiol yn rhoi cyfleoedd pellach i fyfyrwyr gael profiad o gyfathrebu trwy berfformiad, tra bydd dosbarthiadau meistr achlysurol gan berfformwyr blaenllaw ar ymweliad yn rhoi cyd-destun cerddorol a phroffesiynol trosfwaol. Mae hefyd angen mynychu, fel sy'n briodol, berfformiadau sy'n rhan o raglen perfformiadau cyhoeddus y Coleg ac anogir myfyrwyr i ddatblygu ymhellach eu hymatebion dadansoddol a beirniadol personol i berfformiadau trwy ymgysylltu â'r adnodd dysgu hwn.

Datblygir ymhellach dulliau hunanwerthuso a myfyrio i lywio datblygiad personol, cefnogi arferion cynaliadwy a thracio cynnydd artistig trwy gydol y flwyddyn ac fe'u cesglir mewn e-bortffolio personol. Fel arfer cefnogir myfyrwyr trwy gyfrwng tiwtorialau i gael adborth ffurfiannol am eu gwaith e-bortffolio personol. Darperir hyfforddiant sgiliau ychwanegol mewn technegau sain a fideo i gefnogi myfyrwyr i wneud recordiadau personol a rhannu gwaith i danategu eu creadigrwydd.

### **Cydweithredu 2 (Offerynnau Cerddorfaol a Band)**

Modiwl Craidd: 30 Credyd

Asesiad: 40% a 40% dau asesiad ymarferol, 10% a 10% dau adroddiad tiwtor

Bydd y modiwl hwn yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr feithrin hyder yn eu gallu a'u gwybodaeth o berfformio cerddoriaeth mewn cyd-destunau cydweithredol.

Cefnogir myfyrwyr i ehangu eu sgiliau cerddorol, ymarferol, cyflwyno, cyfathrebu a chydweithio drwy ystod o weithgareddau paratoi, rihysal a pherfformio. Atgyfnerthir y moesegau sydd eu hangen mewn rihysal a pherfformio ensembles proffesiynol hefyd drwy weithgareddau ensemble.

Ochr yn ochr â sesiynau wedi'u tiwtora, anogir myfyrwyr i ddatblygu eu technegau arweinyddiaeth a rihysio creadigol a cherddorol eu hunain mewn gwaith ensemble heb ei gyfarwyddo.

Mae gwerthuso cyfraniadau a datblygiad sgiliau unigol pob myfyriwr unigol drwy gydol y modiwl yn y camau paratoi a rihysal cyn perfformiad, ynghyd â'u hymgysylltiad mewn bodloni protocolau ac anghenion ensemble proffesiynol, yn elfennau pwysig o'r modiwl hwn, a chydabyddir datblygiad myfyrwyr yn y meysydd hyn drwy fewnbwn gan diwtoriaid. Datblygir dysgu'r myfyrwyr ymhellach ar draws y modiwl drwy hunanfyfrio.

### **Cydweithredu 2 (Allweddellau)**

Modiwl Craidd: 30 Credyd

Asesiad: 40% & 40% dau asesiad ymarferol, 10% a 10% dau adroddiad tiwtor

Bydd y modiwl hwn yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr feithrin hyder yn eu gallu a'u gwybodaeth o berfformio cerddoriaeth mewn cyd-destunau cydweithredol.

Cefnogir myfyrwyr i ehangu eu sgiliau cerddorol, ymarferol, cyflwyno, cyfathrebu a chydweithio drwy ystod o weithgareddau paratoi, rihysal a pherfformio. Atgyfnerthir y moesegau sydd eu hangen mewn rihysal a pherfformio ensembles proffesiynol hefyd drwy weithgareddau ensemble.

Ochr yn ochr â sesiynau wedi'u tiwtora, anogir myfyrwyr i ddatblygu eu technegau arweinyddiaeth a rihysio creadigol a cherddorol eu hunain mewn gwaith ensemble heb ei gyfarwyddo.

Mae gwerthuso cyfraniadau a datblygiad sgiliau unigol pob myfyriwr unigol drwy gydol y modiwl yn y camau paratoi a rihysal cyn perfformiad, ynghyd â'u hymgysylltiad mewn bodloni protocolau ac anghenion ensemble proffesiynol, yn elfennau pwysig o'r modiwl hwn, a chydabyddir datblygiad myfyrwyr yn y meysydd hyn drwy fewnbwn gan diwtoriaid. Datblygir dysgu'r myfyrwyr ymhellach ar draws y modiwl drwy hunanfyfrio.

### **Cydweithredu 2 (Llais)**

Modiwl Craidd: 30 Credyd

Asesiad: 40% Perfformiad Ensemble wedi'i Asesu a 10% Adroddiad Tiwtor, 25% Perfformiad Opera Ysgolion a 25% Adroddiad Tiwtor

Bydd y modiwl hwn yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr feithrin hyder yn eu gallu a'u gwybodaeth o berfformio cerddoriaeth mewn cyd-destunau cydweithredol.

Cefnogir myfyrwyr i ehangu eu sgiliau cerddorol, ymarferol, cyflwyno, cyfathrebu a chydweithio drwy ystod o weithgareddau paratoi, rihysal a pherfformio. Atgyfnerthir y moesegau sydd eu hangen mewn rihysal a pherfformio ensembles proffesiynol hefyd drwy weithgareddau ensemble.

Ochr yn ochr â sesiynau wedi'u tiwtora, anogir myfyrwyr i ddatblygu eu technegau arweinyddiaeth a rihysio creadigol a cherddorol eu hunain mewn gwaith ensemble heb ei gyfarwyddo.

Mae gwerthuso cyfraniadau a datblygiad sgiliau unigol pob myfyriwr unigol drwy gydol y modiwl yn y camau paratoi a rihysal cyn perfformiad, ynghyd â'u hymgysylltiad mewn bodloni protocolau ac anghenion ensemble proffesiynol, yn elfennau pwysig o'r modiwl hwn, a chydabyddir datblygiad myfyrwyr yn y meysydd hyn drwy fewnbwn gan diwtoriaid. Datblygir dysgu'r myfyrwyr ymhellach ar draws y modiwl drwy hunanfyfrio.

### **Cydweithredu 2 (Gitâr)**

Modiwl Craidd: 30 Credyd

Asesiad: 40% Perfformiad Ensemble wedi'i Asesu, 10% Adroddiad Tiwtor, 30% Trefniannau Gitâr a Asesir, 20% Adroddiad Tiwtor

Bydd y modiwl hwn yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr feithrin hyder yn eu gallu a'u gwybodaeth o berfformio cerddoriaeth mewn cyd-destunau cydweithredol.

Cefnogir myfyrwyr i ehangu eu sgiliau cerddorol, ymarferol, cyflwyno, cyfathrebu a chydweithio drwy ystod o weithgareddau paratoi, rihysal a pherfformio. Atgyfnerthir y moesegau sydd eu hangen mewn rihysal a pherfformio ensembles proffesiynol hefyd drwy weithgareddau ensemble.

Ochr yn ochr â sesiynau wedi'u tiwtora, anogir myfyrwyr i ddatblygu eu technegau arweinyddiaeth a rihysio creadigol a cherddorol eu hunain mewn gwaith ensemble heb ei gyfarwyddo.

Mae gwerthuso cyfraniadau a datblygiad sgiliau unigol pob myfyriwr unigol drwy gydol y modiwl yn y camau paratoi a rihysal cyn perfformiad, ynghyd â'u hymgysylltiad mewn bodloni protocolau ac anghenion ensemble proffesiynol, yn elfennau pwysig o'r modiwl hwn, a chydabyddir datblygiad myfyrwyr yn y meysydd hyn drwy fewnbwn gan diwtoriaid. Datblygir dysgu'r myfyrwyr ymhellach ar draws y modiwl drwy hunanfyfrio.

### **Cydweithredu Creadigol 2**

Modiwl Craidd: 30 Credyd

Asesiad: 50% Perfformiad neu Allbwn Prosiect Creadigol, 20% Adroddiad Tiwtor, 20% Adroddiad Myfyriol

Bydd y modiwl sylweddol hwn yn rhoi rhyddid i fyfyrwyr archwilio a datblygu ymhellach eu galluoedd a'u gwybodaeth sylfaenol o gerddoriaeth a pherfformiad creadigol o fewn prosiect cydweithredol penodol. Fel arfer bydd prosiectau yn sylweddol o ran eu cwmpas ac yn gofyn am ymrwymiad dros gyfnod estynedig o amser. Rhaid i gyfranogiad myfyrwyr mewn prosiectau gael ei gytuno gan Arweinydd y Modiwl a'r Pennaeth Astudio perthnasol cyn dechrau gwaith ar y prosiect.

Cyflawnir y modiwl drwy ymgymryd â phrosiect cydweithredol gydag ensemble cerddorol bach neu fawr neu grŵp creadigol rhyngddisgyblaethol, fel sy'n briodol i friff y prosiect ac mae ethos y modiwl hwn yn hyrwyddo archwiliad o amrywiaeth o repertoires, genres, arddulliau a dulliau creadigol.

Cefnogir myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau creadigol, ymarferol, cyflwyno, cyfathrebu a chydweithredu trwy ystod o weithgareddau rihysal a pherfformio, ynghyd â datblygu ymwybyddiaeth o unrhyw ddisgwyliadau a moesegau proffesiynol sydd eu hangen mewn sefyllfaoedd rihysal a pherfformio cydweithrediad creadigol penodol.

Mae gwerthuso cyfraniadau a datblygiad sgiliau unigol pob myfyriwr unigol drwy holl gamau'r prosiect, ynghyd â'u hymgysylltiad a'u hyder mewn arferion gweithio proffesiynol yn elfennau pwysig i ganolbwyntio arnynt yn y modiwl. Cydnabyddir y datblygiad hwn drwy adroddiadau tiwtoriaid. Bydd myfyrwyr yn hunanwerthuso ac yn myfyrio er mwyn llywio eu datblygiad creadigol, cydweithredol a chynnydd artistig ymhellach.

### **Cerddor Integredig 2**

Modiwl Craidd: 20 Credyd

Asesiad: 60% Portffolio o ymarferion harmoni, 30% Canfyddiad sain y glust a phrofion clust, 10% Cyfranogiad corawl a dawn gerddorol gorfforol

Bydd y modiwl hwn yn meithrin hyder ac yn datblygu sgiliau ym meysydd harmoni, sain y glust a dawn gerddorol gorfforol ac fe'i cyflwynir trwy ystod o gyd-destunau a dulliau addysgu. Bydd gweithdai grŵp bach yn cefnogi datblygiad pellach dealltwriaeth mewn cysyniadau ac arferion pwysig harmoni tonyddol a ffurf. Defnyddir dau ddull ar gyfer datblygu sgiliau sain y glust: côr a seminarau. Bydd cyfranogi'n rheolaidd mewn sesiynau côr yn meithrin hyder pellach mewn ystod o sgiliau sain y glust, sgiliau cerddorol a chorfforol er enghraifft, canu, rhythm, darllen ar yr olwg gyntaf a gwaith byrfyfyr ac fel arfer fe'u cefnogir gan sesiynau grŵp llai neu hyfforddiant y glust unigol. Caiff dawn gerddorol gorfforol ei hintegreiddio a'i gwreiddio mewn gwaith corawl a dosbarthiadau ategol mewn dulliau gyda ffocws ar y meddwl a'r corff yn parhau i gefnogi sefydlu dull dawn gerddorol integredig.

### **Cerddor Integredig 2 (Allweddellau)**

Modiwl Craidd: 20 Credyd

Asesiad: 60% Portffolio o ymarferion harmoni, 30% Canfyddiad sain y glust a phrofion clust, 10% Cyfranogiad corawl a dawn gerddorol gorfforol

Bydd y modiwl hwn yn meithrin hyder ac yn datblygu sgiliau ym meysydd harmoni, sain y glust a dawn gerddorol gorfforol ac fe'i cyflwynir trwy ystod o gyd-destunau a dulliau addysgu. Bydd gweithdai grŵp bach yn cefnogi datblygiad pellach dealltwriaeth mewn cysyniadau ac arferion pwysig harmoi ar gyfer allweddellau. Defnyddir dau ddull ar gyfer datblygu sgiliau sain y glust: côr a seminarau. Bydd cyfranogi'n rheolaidd mewn sesiynau côr yn meithrin hyder pellach mewn ystod o sgiliau sain y glust, sgiliau cerddorol a chorfforol er enghraifft, canu, rhythm, darllen ar yr olwg gyntaf a gwaith byrfyfyr ac fel arfer fe'u cefnogir gan sesiynau grŵp llai neu hyfforddiant y glust unigol. Caiff dawn gerddorol gorfforol ei hintegreiddio a'i gwreiddio mewn gwaith corawl a dosbarthiadau ategol mewn dulliau gyda ffocws ar y meddwl a'r corff yn parhau i gefnogi sefydlu dull dawn gerddorol integredig.

### **Cerddoriaeth a Chymdeithas 2**

Modiwl Craidd: 20 Credyd

Asesiad: 100% Gwaith Cwrs

Bydd y modiwl hwn yn datblygu dealltwriaeth o'r ffyrdd y mae cerddoriaeth wedi cael ei derbyn gan wrandawyr. Bydd yn canolbwyntio ar ddatblygiad cynulleidfaoedd, ffurfiad canonau, ffurfiad cymdeithasau, sefydlu conservatoires, a defnydd gwleidyddol cerddoriaeth. Bydd y cyfnodau a archwilir yn ymestyn o ddiwedd y ddeunawfed ganrif i'r unfed ganrif ar hugain, gyda ffocws ar y bedwaredd ganrif ar bymtheg hir a'i pherthynas hollbwysig â diwylliant cyfoes. Addysgir y cwrs drwy ddau ddull: darlithoedd a seminarau. Cyflwynir astudiaethau achos mewn darlithoedd, a bydd seminarau'n dilyn pob darlith astudiaeth achos er mwyn ehangu'r drafodaeth i ystyried gwahanol fethodolegau sy'n llywio ymholiad. Bydd y methodolegau a archwilir yn adeiladu ar y rheini a gyflwynwyd yn BMus 1, megis casglu data i danategu dadleuon ynglŷn â thueddiadau hanesyddol. Trwy gydol y modiwl bydd gofyn i'r myfyrwyr wneud gwaith darllen a gwrando pellach a, phan fo hynny'n bosibl, greu cysylltiadau ar draws eu profiad yn y Coleg. Mae hyn yn cynnwys mynychu perfformiadau cyhoeddus yn y Coleg a phrosiectau perfformio.

### **Ymgysylltu 2**

Modiwl Craidd: 10 Credyd

Asesiad: 100% Gwaith Cwrs

Arweinir myfyrwyr i ddatblygu gwybodaeth bellach a sgiliau ymarferol mewn cyfranogi, ymgysylltu a hyfforddi cerddoriaeth, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddatblygu deunyddiau a sgiliau addas i addysgu cysyniadau cerddorol mewn cyd-destun gweithdy ysgol gynradd. Bydd dosbarthiadau paratoi yn cynnwys rhoi ystyriaeth i'r croestorri rhwng dulliau addysgu anffurfiol a ffurfiol a sgiliau craidd mewn canfod a pharatoi deunydd addysgu ar gyfer ysgolion, gan gydnabod pwysigrwydd ymchwilio i ofynion y cwricwlwm.

Gan weithio mewn grwpiau, bydd myfyrwyr yn dyfeisio ac yn cyflwyno eu gweithdy cerddoriaeth eu hunain i blant oed cynradd.

Yn ychwanegol at y gwaith hwn, cefnogir myfyrwyr i ddatblygu eu technegau gwerthuso a'u harfer myfyrio ymhellach fel sy'n briodol i'r cyd-destun proffesiynol.

## **BLWYDDYN TRI 120 credyd**

**Bydd myfyrwyr yn astudio UN modiwl craidd gwerth 40 credyd, UN modiwl craidd gwerth 30 credyd, UN modiwl craidd gwerth 10 credyd a DAU fodiwl astudiaethau proffesiynol dewisol gwerth 20 credyd yr un.**

### **Prif Astudiaeth 3**

Modiwl Craidd: 40 Credyd

Asesiad: 80% Perfformiad, Technegol Llwyddo/Methu, 20% Gwaith Cwrs

Addysgir datblygiad pellach meistrolaeth o dechneg, dealltwriaeth o ran arddull a chyfathrebu effeithiol trwy berfformiad mewn gwersi 1:1 a'i ehangu trwy ystod o ddsbarthiadau perfformio a dosbarthiadau meistr. Bydd y gwersi hyn yn parhau i roi arweiniad ar sut y gall myfyrwyr wneud y defnydd gorau o'u hamser yn yr ystafell ymarfer ac atgyfnerthu strategaethau ar gyfer dulliau iach a chynaliadwy. Bydd materion cysylltiedig sy'n ymwneud ag arddull, cyd-destun a chreu cerddoriaeth ymarferol yn parhau i gael sylw mewn dosbarthiadau adrannol. Bydd y rhain yn cefnogi datblygiad sgiliau penodol ar gyfer perfformio genre penodol neu ddewis repertoire



Mae dosbarthiadau perfformio amrywiol yn rhoi cyfleoedd pellach i fyfyrwyr gael profiad o gyfathrebu trwy berfformiad, tra bydd dosbarthiadau meistr achlysurol gan berfformwyr blaenllaw ar ymweliad yn rhoi cyd-destun cerddorol a phroffesiynol trosfwaol. Mae hefyd angen mynychu, fel sy'n briodol, berfformiadau sy'n rhan o raglen perfformiadau cyhoeddus y Coleg ac anogir myfyrwyr i barhau i ddatblygu eu hymatebion dadansoddol a beirniadol personol i berfformiadau trwy ymgysylltu â'r adnodd dysgu hwn.

Datblygir ymhellach ddulliau hunanwerthuso a myfyrio i lywio datblygiad personol, cefnogi arferion cynaliadwy a thracio cynnydd artistig ac fe'u datblygir ymhellach a'u cefnogi fel arfer trwy gyfrwng tiwtorialau i gefnogi myfyrwyr gyda'u gwaith e-bortffolio personol.

### **Cydweithredu 3 (Offerynnau Cerddorfaol a Band)**

Modiwl Craidd: 30 Credyd

Asesiad: 40% a 40% Dau Asesiad Ymarferol, 10% a 10% Dau Adroddiad Tiwtor

Mae'r modiwl hwn yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr archwilio ymhellach a dyfnhau eu galluoedd creadigol, sgiliau a gwybodaeth o berfformio cerddoriaeth mewn ystod o gyd-destunau cydweithredol.

Yn y modiwl cymerir rhan mewn ystod o ensembles cerddorol bach a mawr fel sy'n briodol i'r llwybr arbenigol. Cefnogir myfyrwyr i ddatblygu ymhellach eu sgiliau cerddorol, ymarferol, cyflwyno, cyfathrebu a chydweithio mewn tîm trwy ystod o weithgareddau rihysal a pherfformio, tra hefyd yn atgyfnerthu sgiliau mewn arferion gweithio proffesiynol mewn rihysals a pherfformiadau.

Bydd cefnogi a gwerthuso cyfraniadau a datblygiad sgiliau myfyrwyr drwy gydol y modiwl yn y camau paratoi a rihysal cyn perfformiad, ynghyd â'u dawn gerddorol sy'n dod i'r amlwg a hyder mewn meddiannau arferion gweithio proffesiynol yn parhau'n elfennau pwysig o'r modiwl hwn.

Yn ogystal â sesiynau wedi'u tiwtora, caiff myfyrwyr eu herio i ddatblygu eu technegau arweinyddiaeth creadigol a cherddorol eu hunain, technegau rihysio ac atgyfnerthu hunaniaeth ensemble mewn gwaith heb ei gyfarwyddo.

### **Cydweithredu 3 (Allweddellau)**

Modiwl Craidd: 30 Credyd

Asesiad: 40% a 40% dau asesiad ymarferol, 10% a 10% dau adroddiad tiwtor

Mae'r modiwl hwn yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr archwilio ymhellach a dyfnhau eu galluoedd creadigol, sgiliau a gwybodaeth o berfformio cerddoriaeth mewn ystod o gyd-destunau cydweithredol.

Yn y modiwl cymerir rhan mewn ystod o ensembles cerddorol bach a mawr fel sy'n briodol i'r llwybr arbenigol. Cefnogir myfyrwyr i ddatblygu ymhellach eu sgiliau cerddorol, ymarferol, cyflwyno, cyfathrebu a chydweithio mewn tîm trwy ystod o weithgareddau rihysal a pherfformio, tra hefyd yn atgyfnerthu sgiliau mewn arferion gweithio proffesiynol mewn rihysals a pherfformiadau.

Bydd cefnogi a gwerthuso cyfraniadau a datblygiad sgiliau myfyrwyr drwy gydol y modiwl yn y camau paratoi a rihysal cyn perfformiad, ynghyd â'u dawn gerddorol sy'n dod i'r amlwg a hyder mewn meddiannau arferion gweithio proffesiynol yn parhau'n elfennau pwysig o'r modiwl hwn.

Yn ogystal â sesiynau wedi'u tiwtora, caiff myfyrwyr eu herio i ddatblygu eu technegau arweinyddiaeth creadigol a cherddorol eu hunain, technegau rihysio ac atgyfnerthu hunaniaeth ensemble mewn gwaith heb ei gyfarwyddo.

### **Cydweithredu 3 (Llais)**

Modiwl Craidd: 30 Credyd

Asesiad: 40% Perfformiad Ensemble a 10% Adroddiad Tiwtor, 40% Prosiect Theatr Gerddorol a 10% Adroddiad Tiwtor

Mae'r modiwl hwn yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr archwilio ymhellach a dyfnhau eu galluoedd creadigol, sgiliau a gwybodaeth o berfformio cerddoriaeth mewn ystod o gyd-destunau cydweithredol. Yn y modiwl cymerir rhan mewn ystod o ensembles cerddorol bach a mawr fel sy'n briodol i'r llwybr arbenigol. Cefnogir myfyrwyr i ddatblygu ymhellach eu sgiliau cerddorol, ymarferol, cyflwyno, cyfathrebu a chydweithio mewn tîm trwy ystod o weithgareddau rihysal a pherfformio, tra hefyd yn atgyfnerthu sgiliau mewn arferion gweithio proffesiynol mewn rihysals a pherfformiadau.

Bydd cefnogi a gwerthuso cyfraniadau a datblygiad sgiliau myfyrwyr drwy gydol y modiwl yn y camau paratoi a rihysal cyn perfformiad, ynghyd â'u dawn gerddorol sy'n dod i'r amlwg a hyder mewn meddiannau arferion gweithio proffesiynol yn parhau'n elfennau pwysig o'r modiwl hwn.

Yn ogystal â sesiynau wedi'u tiwtora, caiff myfyrwyr eu herio i ddatblygu eu technegau arweinyddiaeth creadigol a cherddorol eu hunain, technegau rihysio ac atgyfnerthu hunaniath ensemble mewn gwaith heb ei gyfarwyddo.

### **Cydweithredu 3 (Gitâr)**

Modiwl Craidd: 30 Credyd

Asesiad: 40% Perfformiad Ensemble, 10% Adroddiad Tiwtor, 30% Trefniannau Ensemble Gitâr a Asesir, 20% Adroddiad Tiwtor

Mae'r modiwl hwn yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr archwilio ymhellach a dyfnhau eu galluoedd creadigol, sgiliau a gwybodaeth o berfformio cerddoriaeth mewn ystod o gyd-destunau cydweithredol.

Yn y modiwl cymerir rhan mewn ystod o ensembles cerddorol bach a mawr fel sy'n briodol i'r llwybr arbenigol. Cefnogir myfyrwyr i ddatblygu ymhellach eu sgiliau cerddorol, ymarferol, cyflwyno, cyfathrebu a chydweithio mewn tîm trwy ystod o weithgareddau rihysal a pherfformio, tra hefyd yn atgyfnerthu sgiliau mewn arferion gweithio proffesiynol mewn rihysals a pherfformiadau.

Bydd cefnogi a gwerthuso cyfraniadau a datblygiad sgiliau myfyrwyr drwy gydol y modiwl yn y camau paratoi a rihysal cyn perfformiad, ynghyd â'u dawn gerddorol sy'n dod i'r amlwg a hyder mewn meddiannau arferion gweithio proffesiynol yn parhau'n elfennau pwysig o'r modiwl hwn.

Yn ogystal â sesiynau wedi'u tiwtora, caiff myfyrwyr eu herio i ddatblygu eu technegau arweinyddiaeth creadigol a cherddorol eu hunain, technegau rihysio ac atgyfnerthu hunaniath ensemble mewn gwaith heb ei gyfarwyddo..

### **Ymgysylltu 3\***

Modiwl Craidd: 10 Credyd

Asesiad: 100% Gwaith Cwrs

Mae'r modiwl hwn yn rhoi arweiniad i fyfyrwyr ynglŷn â threfniant a strwythur hyfforddiant offerynnol, lleisiol neu gyfansoddi cynhwysol, sy'n cwmpasu elfennau sylfaenol sefydlu arfer addysgu cadarn. Bydd y modiwl hefyd yn archwilio elfennau perthynas athro/disgybl llwyddiannus, yn ymdrin â materion sy'n ymwneud â chynnydd disgyblion a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ystyried disgyblion fel unigolion, gan eu cydnabod a'u meithrin fel pobl sydd ag anghenion unigryw ac unigol.

Bydd darlithoedd a dosbarthiadau'n trafod meini prawf ar gyfer datblygu methodoleg addysgu sylfaenol i offerynwyr, cantorion neu gyfansoddwyr sy'n ddechreuwyr. Rhoddir ystyriaeth i amrywiaeth o gyd-destunau addysgu, gydag arweiniad ar gyfer dewis deunyddiau addysgu, yn cwmpasu anghenion gwybyddol, technegol a cherddorol ac yn cydnabod datblygiad sgiliau cyfathrebu geiriol a di-eiriau mewn cyd-destunau addysgu.

Bydd myfyrwyr yn gwneud eu haddysgu ymarferol eu hunain yn y modiwl hwn, gan adeiladu portffolio o ddeunyddiau a myfyrio i gefnogi eu dealltwriaeth o ddatblygiad ymarferol sgiliau addysgu.

\*Bydd angen DBS ar gyfer y modiwl hwn

## **Dewiswch DDAU opsiwn modiwl dewisol (un yr un o lefelau 5 a 6) o'r rhestr ganlynol o fodiwlau dewisol (pob un yn werth 20 credyd)**

### **Cyfansoddi a Threfnu**

Modiwl Dewisol: 20 Credyd  
Asesiad: 100% Portffolio

Bydd tiwtorialau a gweithdai yn cynnwys ymchwilio elfennau sylfaenol techneg cyfansoddi a dulliau ar gyfer trefnu trwy drafodaeth ynglŷn â'r egwyddorion cyffredinol ac enghreifftiau o weithiau sy'n bodoli'n barod.

Anogir myfyrwyr i ddatblygu dull beirniadol ar gyfer eu gwaith trwy drafod eu darnau eu hunain mewn dosbarthiadau a seminarau. Bydd ystyriaeth ehangach o oblygiadau esthetig dewisiadau cyfansoddi/trefnu yn deillio o'r archwiliadau cychwynol hyn o faterion technegol.

### **Cerddoriaeth a Chymdeithas 3**

Modiwl Dewisol: 20 Credyd  
Asesiad: 100% Portffolio

Nod y modiwl hwn yw cyflwyno'r myfyriwr i'r llu o ffyrdd y mae cerddoriaeth wedi cael ei defnyddio i ddylanwadu ar newid cymdeithasol. Addysgir y modiwl ar ffurf seminarau lle archwilir testunau allweddol drwy drafodaeth fanwl. Canolbwytir ar y ffyrdd y mae cerddorion yn ymateb i'r cyd-destunau y maent yn byw ynddynt ac yn trawsnewid cymdeithas trwy eu hymyriadau. Bydd y modiwl hefyd yn ceisio datblygu uwch sgiliau ymchwil, gan adeiladu ar waith y ddwy flynedd gyntaf o astudio. Archwilir dulliau cyfoes mewn ysgolheictod cerddorol, gan gynnwys materion hil, rhyw a dosbarth mewn manylder. Bydd myfyrwyr yn ymgymryd â phrosiect mawr, a bydd yn galw am ddull mwy soffistigedig o drafod.

### **Y Perfformiwr Gwybodus**

Modiwl Dewisol: 20 Credyd  
Asesiad: 50% Perfformiad, 50% Ysgrifenedig

Bydd y modiwl hwn yn annog myfyrwyr i osod eu perfformiadau mewn cyd-destun arddulliadol gwybodus. Gan ddefnyddio nifer o astudiaethau achos fel enghreifftiau, bydd y modiwl yn edrych ar ddetholiad o repertoire o amrywiaeth o gyfnodau ac mewn ystod eang o arddulliau. Bydd cyflwyniadau a grwpiau trafod yn archwilio sut y gall ystyriaethau o ffynonellau cynradd ac eilaidd, tystiolaeth gyfoes, recordiadau a chyfweliadau gyda chyfansoddwyr, perfformwyr a gwrandawyr, wella dealltwriaeth a rhoi cysyniad cryf ar gyfer perfformiad. Bydd dosbarthiadau yn trafod technegau ymchwil perthnasol, sut i ddefnyddio a deall yr etifeddiaeth sydd wedi'i recordio a sut i gysylltu'r wybodaeth hon i berfformiad. Bydd asesiad y modiwl yn cynnwys dwy elfen: yn gyntaf, sylwebaeth feirniadol ysgrifenedig yn disgrifio prosesau ymchwil a chasgliadau ac, yn ail, perfformiad byr i ddangos cyfuniad ymarferol o ymchwil cronedig gyda nodau perfformiad personol, a sut mae hyn wedi dylanwadu ar ddehongliad.

### **Cerddoriaeth ar gyfer Theatr**

Modiwl Dewisol: 20 Credyd  
Asesiad: 60% Portffolio, 40% Adroddiad

Mae'r modiwl hwn yn rhoi cyfle i astudio'r grefft o ddyfeisio cerddoriaeth ar gyfer cynyrchiadau theatr newydd. Bydd yn cynnwys dadansoddiad o sgript i ddeall cynnwys, ffurf a phwls dramatig, gan arwain at gynhyrchu sgôr gerddorol gydlynol.

Bydd ymarferion ymarferol yn cynnwys dewis a lleoli cerddoriaeth sy'n bodoli'n barod yn ogystal â chyfansoddiad gwreiddiol i ddehongli a gwella testun a godir o ystod o ffynonellau. Bydd cyflwyniad y gwaith yn ymdrin â darnau o weithiau a ddewisir ac ar ffurf darlleniadau wedi'u rihysio.

### **Sgiliau Arwain**

Modiwl Dewisol: 20 Credyd  
Asesiad: 70% Ymarferol, 30% Ysgrifenedig

Bydd dosbarthiadau'n canolbwyntio ar dair elfen o grefft arweinydd: sgiliau technegol, perthynas yr arweinydd ag ensemble o gerddorion (techneg rihyrsio) a chyfathrebu syniadau cerddorol yn gorfforol drwy arwain. Wrth i'r cwrs fynd rhagddo, cyfunir yr elfennau hyn wrth i'r myfyrwyr gydweithio mewn grŵp, gan ddatblygu hyder drwy hyfforddiant ymarferol a chaffael profiad o'r broses rihyrsal. Bydd y prosiect hefyd yn cynnwys peth trafodaeth ynglŷn â gwahanol rolau'r arweinydd, sut mae'r rhain wedi esblygu'n hanesyddol, a sut y gallant amrywio ar draws ystod o wahanol arddulliau, genres a sefyllfaoedd ymarferol. Gall pynciau gynnwys, ond ni fyddant wedi'u cyfyngu i, arwain cerddorfaol ac opera, arwain corawl, cyfarwyddo cerddorol mewn theatr gerddorol, ac arwain band pres.

### **Techneg Alexander**

Modiwl Dewisol: 20 Credyd

Asesiad: 70% Ysgrifenedig, 30% Dyddlyfr Myfyriol

Mae'r modiwl hwn yn canolbwyntio ar Dechneg Alexander, corff o wybodaeth gysyniadol ac ymarferol sy'n galluogi'r defnyddiwr i ddefnyddio ymdrech yn effeithiol mewn unrhyw gyd-destun penodol y maent yn dewis cymhwyso eu dealltwriaeth. Mewn cyd-destun cerddorol, byddai hyn yn arwain at berfformiwr yn cyfeirio ei egni at y meysydd sy'n fwyaf tebygol o roi canlyniadau cadarnhaol, a defnyddio'r swm cywir o egni (dim gormod na rhy ychydig).

Er mwyn sicrhau'r effeithiolrwydd egni hwn mae'n rhaid i'r unigolyn ddatblygu dwy lefel o ddealltwriaeth benodol ond rhyng-gysylltiedig: sef y strwythurau anatomegol a'r prosesau sy'n sail i symud; a'r prosesau meddyliol a chorfforol sy'n gysylltiedig mewn paratoi, cyflawni a monitro gweithgarwch.

Mae'r modiwl hwn yn datblygu dau faes mewn modd integredig, drwy gyfuniad o waith theori ac archwiliad ymarferol. Erbyn diwedd y modiwl dylai fod gan y myfyriwr ddigon o wybodaeth weithiol am Dechneg Alexander i allu ei defnyddio yn ei berfformiad/pherfformiad ei hun, neu unrhyw beth arall y mae'n dymuno ei wella.

### **Bioleg ar gyfer Cerddorion**

Modiwl Dewisol: 20 Credyd

Asesiad: 70% Traethawd, 30% Portffolio

Cyfes o ddarlithoedd yn edrych ar fiowyddor perfformiad a thrafod materion sy'n berthnasol i berfformwyr (yn arbennig cantorion a chwaraewyr offerynnau chwyth) gan gynnwys anadlu, safiad, atal anafiadau, rheoli straen, clywed a phrosesu sain cerddorol. Bydd myfyrwyr yn datblygu dealltwriaeth mewn ystod o feysydd a byddant yn gallu:

- disgrifio natur yr ymateb i straen, sut y mae straen cronig ac aciwt yn gysylltiedig â materion perfformio a ffordd o fyw ymhlith cerddorion, ac adolygu'r hyn sy'n ffyrdd priodol ac amhriodol o ddelio â'r materion hyn
- egluro'n fanwl gywir fecanweithiau anadlu wrth chwarae offerynnau chwyth a chanu
- disgrifio sut mae'r laryncs yn cynhyrchu sŵn ac egluro tarddiad gwahanol gofrestrau a mecanwaith tafluniad y llais
- egluro sut y gall y laryncs gael ei niweidio yn ystod perfformiad neu drwy salwch, a sut y gellir rheoli a thrin hyn.

Archwilir strwythur y genau, sut y caiff ei gynnal gan y dannedd a'r geg, gan egluro sut y gallai'r genau a'r llwybr anadlu gael eu heffeithio neu eu niweidio gan bwysedd uchel a grëir wrth chwarae offerynnau chwyth.

Cyfarwyddir myfyrwyr sut i:

- ddisgrifio strwythur y cefn a'r ysgwydd
- adnabod y problemau o ran safiad a grëir gan wahanol offerynnau a sut y gellir lleihau effaith y rhain
- egluro strwythur y fraich a'r llaw a sut y defnyddir y rhain wrth chwarae offerynnau
- adolygu'r risgiau a geir gan gywasgiad y nerfau a symudiad ailadroddus wrth chwarae
- deall sut y gellir osgoi neu drin problemau corfforol a sut i ddod o hyd i gymorth priodol
- arddangos gwybodaeth ymarferol o ymarferion corfforol a meddyliol i leihau tensiwn, adfer safiad a mynd i'r afael â phryder perfformio
- egluro mecanwaith canfod sŵn gan y glust wrth glywed, a sut y gall gael ei niweidio gan sŵn dwys

- disgrifio materion iechyd a diogelwch yn y modd y maent yn berthnasol i'r byd cerddorol
- gwerthfawrogi pwysigrwydd sut y mae'r ymennydd yn prosesu sŵn cymhleth ar gyfer canfod cerddoriaeth a sut mae'n effeithio ar ein hemosiynau

### **Cerddoriaeth Gymreig**

Modiwl Dewisol: 20 Credyd  
 Asesiad: 100% Portffolio

Drwy gyfres o seminarau, gweithdai ac ymweliadau allanol, bydd y modiwl hwn yn rhoi trosolwg o gerddoriaeth Gymreig, gan ymchwilio ei datblygiad hanesyddol a phlethiad yr elfennau gwerin, traddodiadol a chlasurol, o ddiwedd yr Oesoedd Canol hyd heddiw. Bydd meysydd astudio yn cynnwys: trosolwg hanesyddol, ysgogwyr cymdeithasol ac ystyriaeth i "Gymreictod" mewn cerddoriaeth; y delyn fel offeryn cenedlaethol Cymru; cerddoriaeth werin Cymru; cerddoriaeth glasurol Cymru rhwng y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r unfed ganrif ar hugain; byd cerddoriaeth gyfoes Cymru.

### **Cerddor sy'n Addysgu**

Modiwl Dewisol: 20 Credyd  
 Asesiad: 50% Portffolio Addysgu, 50% Ysgrifenedig

Mae'r modiwl hwn yn ehangu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth myfyrwyr o faterion sy'n gysylltiedig ag addysgu, gan gynnwys elfennau proffesiynol o sefydlu arfer addysgu. Bydd yn archwilio agweddau ar gynllunio a chynnwys gwrs, gan ystyried sut y gallai hyn amrywio yn dibynnu ar y lleoliad addysgu. Bydd myfyrwyr yn ystyried sut i ddatblygu dulliau addysgu sy'n addas ar gyfer gofynion yr unigolyn neu grŵp bach, gan gynnwys gwahaniaethu yn ôl oed, gallu ac anghenion penodol. Astudir agweddau ar theori addysg, gwerthoedd proffesiynol a dulliau addysgeg er mwyn llywio arfer a phersbectif o ran addysgu. Fe fydd elfen graidd o addysgu ymarferol 'bywyd go iawn', gyda chefnogaeth mentor dynodedig.

### **Cerddor yn y Gymuned**

Modiwl Dewisol: 20 Credyd  
 Asesiad: 50% Ymarferol, 50% Ysgrifenedig

Bydd y modiwl hwn yn rhoi cefnogaeth ymarferol ar gyfer datblygu hyder mewn sgiliau hwyluso gweithdai cerddoriaeth. Bydd sesiynau hyfforddi cychwynnol yn rhoi ystyriaeth bellach i fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol ac yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau mewn hwyluso a chydgyfnewidiaeth mewn gweithdy. Rhoddir arweiniad ar brosesau ar gyfer dewis deunyddiau a dulliau priodol er mwyn galluogi arfer parchus a chroesawus mewn lleoliadau a ddewisir. Er mwyn atgyfnerthu dealltwriaeth gysyniadol, bydd myfyrwyr yn gwneud gwaith ymarferol, gan gynnwys arwain gweithdai y byddant wedi'u creu eu hunain, mewn amrywiaeth o leoliadau cymunedol ac ymgysylltu mewn gwaith unigol a grŵp i ddatblygu arfer ymatblyg.

### **Cynhyrchu ar gyfer Radio**

Modiwl Dewisol: 20 Credyd  
 Asesiad: 50% Ymarferol, 50% Ysgrifenedig

Bydd y modiwl hwn yn rhoi arweiniad i fyfyrwyr mewn creu rhaglen radio fer mewn genre dogfen neu gylchgrawn. Gan weithio mewn grwpiau bach, bydd myfyrwyr yn dysgu am wahanol fformatau rhaglenni radio ynghyd ag ystod o sgiliau ymarferol cysylltiedig. Gallai'r rhain gynnwys: technegau cyfweld a sut i strwythuro rhaglen. Ochr yn ochr â hyn, datblygir uwch sgiliau sy'n gysylltiedig â recordio a golygu. Bydd pob grŵp yn cyflwyno recordiad sy'n cynnwys eu rhaglen. Yn ogystal, bydd myfyrwyr yn myfyrio'n unigol ar bob agwedd ar y prosesau creadigol a thechnolegol sy'n rhan o wneud y rhaglen, effeithiolrwydd eu cyfraniad eu hunain, ac ansawdd y canlyniad(au).

### **Cerddoriaeth mewn Geiriau**

Modiwl Dewisol: 20 Credyd  
 Asesiad: 100% Portffolio

Bydd y modiwl hwn yn rhoi trosolwg o arddulliau ysgrifennu ar gyfer gwahanol ddibenion ac yn cyflwyno strategaethau ar gyfer ymgymryd â thasgau ysgrifenedig dewisedig, megis nodiadau rhaglen ac adolygiadau cyngerdd. Drwy ganolbwyntio ar ddeunyddiau ysgrifenedig amrywiol o safbwynt beirniadol ac esthetig, bydd y modiwl yn galluogi myfyrwyr i egluro syniadau yn glir a chryno, er mwyn ymateb i ystod o ffynonellau ac i egluro amrywiaeth o faterion cerddolegol a chysylltiedig â pherfformio mewn ystod eang o gyd-destunau ysgrifenedig.

### **Seicoleg Perfformio**

Modiwl Dewisol: 20 Credyd  
Asesiad: 70% Ysgrifenedig, 30% Ymarferol

Bydd y modiwl hwn yn canolbwyntio ar ystod o bynciau ym maes seicoleg perfformio cerddoriaeth, sy'n berthnasol i gefnogi a gwella cerddorion unigol a'u strategaethau ar gyfer perfformio. Bydd seminarau a darlithoedd yn canolbwyntio ar ystod o faterion ar gyfer cerddorion unigol gan gynnwys agweddau ar niwrowyddoniaeth, gwyddor chwaraeon, hunaniaeth gerddorol, hyfforddiant sgiliau ymenyddol (gan gynnwys gosod targedau, hyder, egni optimaidd mewn perfformiad a thechnegau cofio) a fydd yn caniatáu i fyfyrwyr archwilio eu prosesau paratoi a pherfformio mewn manylder, drwy lens ymchwil seicoleg cerddoriaeth cyfoes.

### **Gweithio yn y Sector Creadigol**

Modiwl Dewisol: 20 Credyd  
Asesiad: 50% Ysgrifenedig, 50% Ymarferol

Bydd gweithdai a chyflwyniadau yn canolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth yn ymwneud â meysydd allweddol rheolaeth yn y celfyddydau cyfredol tra hefyd yn paratoi myfyrwyr i gynhyrchu amlinellid prosiect gyda nodau ac amcanion priodol.

Bydd y rhain yn cynnwys:

- polisi presennol yn y DU
- cyllido'r celfyddydau
- gwahanol fathau o sefydliadau celfyddydau a'u meintiau a gwahanol leoliadau
- cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- gweithio'n llwyddiannus fel tîm
- syniadaeth
- cynllunio prosiect

Bydd myfyrwyr yn gweithio mewn grwpiau bach ac yn cael eu mentora i ddatblygu a chyflwyno perfformiadau sy'n cyfrannu at ddigwyddiad cyhoeddus ar thema benodol, gan ddefnyddio ystod o sgiliau ymarferol a throsglwyddadwy sydd eu hangen ar gyfer rheolaeth yn y celfyddydau.

### **Harmoni Uwch**

Modiwl Dewisol: 20 Credyd  
Asesiad: 100% Portffolio

Cyflwynir y modiwl hwn drwy ddsbarthiadau gweithdy mewn hyfforddiant harmoni datblygedig. Bydd ymarferion ysgrifenedig, dadansoddiadau a gweithdai harmoni yn cefnogi myfyrwyr i ddatblygu eu galluedd mewn, a dealltwriaeth o, ystod estynedig o theoriâu a thechnegau harmonig. Archwilir ymarferion mewn amrywiaeth o arddulliau, gan gysylltu dadansoddiad i repertoires perfformiadau y myfyrwyr eu hunain pan fo hynny'n bosibl, er mwyn dylanwadu ar drafodaethau am berfformiadau. Bydd myfyrwyr yn cwblhau ymarferion ffurfiannol cyn paratoi a chyflwyno portffolio crynodol terfynol.

### **Gwaith Byrfyfyr**

Modiwl Dewisol: 20 Credyd  
Asesiad: 50% a 50% Dau Asesiad Ymarferol

Bydd cyfres o weithdai grŵp yn archwilio'r broses o gyfansoddi disymwth drwy ymarferion ymarferol sy'n trawsnewid dychymyg cerddorol yn berfformiad o ran gwaith byrfyfyr unigol ac ar y cyd. Anogir myfyrwyr i ystyried y berthynas rhwng offeryn (gan gynnwys y llais) a'r perfformiwr, gan ddatblygu dulliau technegol newydd

sy'n hwyluso rhyddid creadigol. Bydd y modiwl yn gwella ymwybyddiaeth esthetig ac yn dwysáu canfyddiad sain y glust.

## **BLWYDDYN PEDWAR 120 Credyd**

Yn y bedwaredd flwyddyn gall myfyrwyr adeiladu ar eu cryfderau o ystod o fodiwlau a fydd yn adlewyrchu eu prif feysydd diddordeb a datblygiad personol. Mae tri modd astudio ar gael ar y lefel hon.

Modd 1: 80 credyd o fodiwlau Prif Lwybr a 40 credyd o fodiwlau Astudiaethau Proffesiynol

Modd 2: 60 credyd o fodiwlau Prif Lwybr a 60 credyd o fodiwlau Astudiaethau Proffesiynol

Modd 1: 40 credyd o fodiwlau Prif Lwybr a 80 credyd o fodiwlau Astudiaethau Proffesiynol

## **MODIWLAU PRIF LWYBR**

### **Datganiad Terfynol**

Modiwl Dewisol: 40 Credyd

Asesiad: 90% Perfformiad, 10% Deunydd Rhaglen

Bydd y modiwl hwn yn rhedeg drwy gydol y flwyddyn academiaidd. Bydd gwersi unigol, sesiynau cyfeilio a/neu hyfforddi yn canolbwyntio ar ddatblygiad sgiliau perfformio datblygedig a chynaliadwy. Cyfoethogir y broses hon gyda dosbarthiadau perfformio, dosbarthiadau meistr, perfformiadau cyhoeddus gan artistiaid ar ymweliad a phrosiectau achlysurol eraill, sydd hefyd yn annog rhaglennu llawn dychymyg ac yn datblygu sgiliau cyflwyno a chyfathrebu artistig i lefel uchel. Argymhellir hefyd bresenoldeb mewn cyngherddau sy'n llunio rhan o raglen perfformiadau cyhoeddus y Coleg.

### **Datganiad Byr**

Modiwl Dewisol: 20 Credyd

Asesiad: 90% Perfformiad, 10% Deunydd Rhaglen

Bydd y modiwl hwn fel arfer yn digwydd ar draws hanner cyntaf y flwyddyn academiaidd. Bydd gwersi unigol, sesiynau cyfeilio a/neu hyfforddi yn canolbwyntio ar ddatblygiad sgiliau perfformio datblygedig a chynaliadwy. Cyfoethogir y broses hon gyda dosbarthiadau perfformio, dosbarthiadau meistr, perfformiadau cyhoeddus gan artistiaid ar ymweliad a phrosiectau achlysurol eraill, sydd hefyd yn annog rhaglennu llawn dychymyg ac yn datblygu sgiliau cyflwyno a chyfathrebu artistig i lefel uchel. Daw'r modiwl i uchafbwynt mewn perfformiad rhaglen a ddewisir, a amserlennir fel arfer yn ystod tymor y Gwanwyn, y bydd angen i'w chynnwys gael ei gymeradwyo ymlaen llaw. Mae presenoldeb hefyd yn ofynnol mewn cyngherddau sy'n llunio rhan o raglen perfformiadau cyhoeddus y Coleg.

### **Perfformiad Cydweithredol Mawr**

Modiwl Dewisol: 40 Credyd

Asesiad: 90% Perfformiad, 10% Deunydd Rhaglen

Cefnogir y modiwl drwy ystod eang o brofiadau dysgu. Bydd dosbarthiadau ensemble, hyfforddiant a/neu sesiynau mentora yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau perfformio cydweithredol uwch yn ogystal â dealltwriaeth o strategaethau rihysal ensemble effeithiol. Bydd mynychu digwyddiadau yn rhaglen perfformiadau cyhoeddus y Coleg yn datblygu ymhellach ymwybyddiaeth feirniadol o ofynion perfformio cydweithredol ar lefel uchel (offerynnol a/neu leisiol). Bydd dosbarthiadau perfformio yn rhoi cyfleoedd i brofi ystod o repertoire cysylltiedig a thrafod materion ehangach yn ymwneud â pherfformio. Bydd gwersi unigol yn cyfrannu at gaffael sgiliau perfformio sy'n gysylltiedig â repertoire a ddewisir, er mai'r myfyrwyr fydd yn y pen draw yn gyfrifol am ffurfio a chynnal eu hensembles. Mae pob ensemble a rhaglen yn amodol ar gymeradwyaeth.

### **Perfformiad Cydweithredol**

Modiwl Dewisol: 20 Credyd

Asesiad: 90% Perfformiad, 10% Deunydd Rhaglen

Cyflwynir y modiwl drwy ystod eang o brofiadau dysgu. Bydd dosbarthiadau ensemble, hyfforddiant a/neu sesiynau mentora yn canolbwyntio ar gefnogi ymhellach sgiliau perfformio cydweithredol uwch yn ogystal â

dealltwriaeth o strategaethau rihysal ensemble effeithiol. Bydd mynychu digwyddiadau yn rhaglen perfformiadau cyhoeddus y Coleg yn datblygu ymhellach ymwybyddiaeth feirniadol o ofynion perfformiad arddull siambr ar lefel uchel (offerynnol a/neu leisiol). Bydd dosbarthiadau perfformio yn rhoi cyfleoedd i brofi ystod o repertoire cysylltiedig a thrafod materion ehangach yn ymwneud â pherfformio, megis materion arddull. Bydd gwersi unigol yn cyfrannu at gaffael sgiliau perfformio sy'n gysylltiedig â repertoire a ddewisir, er mai'r myfyrwyr fydd yn y pen draw yn gyfrifol am ffurfio a chynnal eu hensembles. Bydd perfformiad a asesir (yn nodweddiadol yn ystod tymor yr Haf) fel arfer yn cynnwys ensemble o rhwng tri ac wyth chwaraewr. Mae pob ensemble a rhaglen yn amodol ar gymeradwyaeth.

### **Perfformio Band Pres**

Modiwl Dewisol: 40 Credyd

Asesiad: 80% Perfformiad 18-20 munud, 20% Nodiadau Rhaglen Dadansoddol

Mae'r modiwl hwn ar gael i fyfyrwyr sy'n arbenigo mewn unrhyw offeryn band pres. Trwy amrediad o ddulliau addysgu bydd myfyrwyr yn paratoi ystod eang o feysydd yn ymwneud â pherfformiad band pres. Daw'r modiwl hwn i uchafbwynt gyda phob myfyriwr yn cael cyfle i chwarae rôl amlwg mewn perfformiad band pres.

### **Perfformio Cerddoriaeth Gyfoes**

Modiwl Dewisol: 20 Credyd

Asesiad: 80% Perfformiad, 20% Nodiadau Rhaglen Dadansoddol

Bydd y modiwl hwn yn nodweddiadol yn rhedeg ar draws hanner cyntaf y flwyddyn academaidd. Fel arfer bydd gwersi unigol a gynigir gan diwtor arbenigol yn canolbwyntio ar ddatblygiad techneg offerynnol wedi'i ffurfio'n llawn, dealltwriaeth o arddull, a dealltwriaeth wybodus am repertoires cyfoes a ddewisir. Fel sy'n briodol, bydd rihysals wedi'u hyfforddi a seminarau grŵp yn ymchwilio posibiliadau rhaglennu cydweithredol, yn archwilio materion perfformio ac yn gofyn am lefel uchel o gyfathrebu a rhyngweithio. Cefnogir myfyrwyr hefyd i greu nodiadau rhaglen dadansoddol i gefnogi'r repertoires y maent wedi'u dewis.

### **Perfformio ar Offeryn Cyfnod**

Modiwl Dewisol: 20 Credyd

Asesiad: 80% Perfformiad, 20% Nodiadau Rhaglen Dadansoddol

Bydd y modiwl hwn yn nodweddiadol yn rhedeg ar draws hanner cyntaf y flwyddyn academaidd. Fel arfer bydd gwersi unigol a gynigir gan diwtor arbenigol yn canolbwyntio ar ddatblygiad techneg offerynnol wedi'i ffurfio'n llawn, dealltwriaeth o arddull, a dealltwriaeth wybodus o repertoire perfformio ar offeryn cyfnod. Fel sy'n briodol, bydd rihysals wedi'u hyfforddi a seminarau grŵp yn ymchwilio posibiliadau rhaglennu cydweithredol, yn archwilio materion perfformio ac yn gofyn am lefel uchel o gyfathrebu a rhyngweithio. Cefnogir myfyrwyr hefyd i greu nodiadau rhaglen dadansoddol i gefnogi'r repertoires y maent wedi'u dewis.

### **Perfformio Lleisiol Theatr Gerddorol**

Modiwl Dewisol: 20 Credyd

Asesiad: 80% Perfformiad, 20% Nodiadau Rhaglen Dadansoddol

Bydd y modiwl hwn yn nodweddiadol yn rhedeg ar draws hanner cyntaf y flwyddyn academaidd. Bydd gwersi unigol a gynigir, fel arfer gan diwtoriaid arbenigol 1:1, yn cynnwys ystyriaeth i ddatblygiad techneg lleisiol, dealltwriaeth o arddull, a gwybodaeth am repertoire sy'n gysylltiedig â theatr gerddorol. Fel sy'n briodol, bydd dosbarthiadau adrannol, rihysals wedi'u hyfforddi a phrosiectau adrannol yn annog rhaglennu a pherfformio cydweithredol ac yn gofyn am lefel uchel o gyfathrebu a rhyngweithio. Cyflwynir rhaglen gyferbyniol sy'n cynnwys cyflwyniadau byr ar lafar.

Gall myfyrwyr ddewis eu rhaglen eu hunain o repertoire, ond dylai rhaglenni gynnwys y canlynol:

- Cân o'r Cyfnod Cyn-aur (o leiaf 1920au – diwedd 1930au) e.e. Gershwin/Cole Porter/Jerome Kern/Rogers a Hart/Ivor Novello/Kurt Weill
- Cân o'r Oes Aur (1940-1965) e.e. Rodgers a Hammerstein, Lerner a Loewe, Frank Loesser ac ati
- Cân – geiriau a cherddoriaeth gan Sondheim
- Rhywbeth o'r Theatr Gerddorol Gyfoes e.e. Stephen Schwartz, Alan Menken, Marvin Hamlisch.



### **Clyweliad Cerddorfaol**

Modiwl Dewisol: 20 Credyd  
Asesiad: 80% Ymarferol, 20% Portffolio Cais

Mae'r modiwl hwn ar gael i fyfyrwyr sy'n arbenigo mewn unrhyw offerynnau 'treblu' cerddorfaol safonol sy'n dymuno dilyn gyrfa gerddorfaol. Trwy amrediad o ddulliau addysgu, sy'n nodweddiadol yn cynnwys gwersi 1-1 a mentora, dosbarthiadau grŵp a darlithoedd gan rai ar ymweliad, bydd myfyrwyr yn canolbwyntio eu gwaith ar baratoi a chyflwyno clyweliad ffurfiol i banel. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys paratoi amrediad o repertoire unawdol o ddetholiadau sy'n briodol ar gyfer clyweliad cerddorfaol (neu gerddorfa pwll) ynghyd â llythyr cais a CV.

Cefnogir myfyrwyr i baratoi eu deunydd cais clyweliad proffesiynol eu hunain a rhoddir arweiniad iddynt mewn datblygu llythyrau cais proffesiynol a CV priodol ar gyfer clyweliadau cerddorfaol.

### **Astudiaethau Cerddorfaol**

Modiwl Dewisol: 40 Credyd  
Asesiad: 60% Ymarferol, 20% Asesiad Ensemble, 20% Portffolio Cais

Mae'r modiwl hwn ar gael i fyfyrwyr sy'n arbenigo mewn unrhyw offerynnau 'treblu' cerddorfaol safonol sy'n dymuno dilyn gyrfa gerddorfaol. Trwy amrediad o ddulliau addysgu, sy'n nodweddiadol yn cynnwys gwersi 1-1 a mentora, dosbarthiadau grŵp a darlithoedd gan rai ar ymweliad, bydd myfyrwyr yn canolbwyntio eu gwaith ar baratoi a chyflwyno clyweliad ffurfiol i banel. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys paratoi amrediad o repertoire unawdol o ddetholiadau sy'n briodol ar gyfer clyweliad cerddorfaol (neu gerddorfa pwll) ynghyd â llythyr cais a CV.

Cefnogir myfyrwyr i ddatblygu eu pecyn cais clyweliad proffesiynol eu hunain. Bydd y gwaith hwn yn cwmpasu elfennau allweddol o'r prosesau paratoi ac ymgeisio ar gyfer gyrfa gerddorfaol broffesiynol mewn amrediad o senarios a bydd yn cynnwys recordiad fideo 'rownd gyntaf', llythyrau cais, CV priodol a deunyddiau cefnogi eraill. Bydd asesiad o gyfraniadau perfformio myfyrwyr o fewn gwaith ensemble cerddorfaol fel arfer yn llunio rhan o'r gofynion ar gyfer y modiwl hwn. Bydd hyn yn nodweddiadol ar ffurf rihysal a arsylwir neu berfformiad mewn cerddorfa/ensemble Coleg.

### **Perfformio Band Mawr**

Modiwl Dewisol: 40 Credyd  
Asesiad: 90% Perfformiad, 10% Datganiad Artistig

Ategir gwersi 1:1 gyda rihysals a pherfformiadau band. Bydd rihysals yn annog datblygiad lefel uchel o sgiliau ensemble a'r gallu i ddilyn cyfarwyddyd cerddorol.

### **Perfformio Band Mawr**

Modiwl Dewisol: 20 Credyd  
Asesiad: 90% Perfformiad, 10% Datganiad Artistig

Ategir gwersi 1:1 gyda rihysals a pherfformiadau band. Bydd rihysals yn annog datblygiad lefel uchel o sgiliau ensemble a'r gallu i ddilyn cyfarwyddyd cerddorol. Bydd myfyrwyr yn cael cyfle i gael rôl amlwg mewn ensemble mawr, fel y gallant ddangos y gallu i berfformio i safon broffesiynol mewn sefyllfa ensemble jazz mawr.

## **MODIWLAU ASTUDIAETHAU PROFFESIYNOL**

### **Prosiect Terfynol**

Modiwl Dewisol: 40 Credyd  
Asesiad: 60% Allbwn Prosiect, 10% Cynnig Prosiect, 30% Gwerthusiad Prosiect

Bydd gofyn i bob myfyriwr ddyfeisio a datblygu prosiect a hunangyfarwyddir sy'n defnyddio eu diddordebau penodol ac yn cyfrannu at ddatblygiad gyrfa gynaliadwy. Gan weithio gydag Arweinydd y Modiwl, byddant yn datblygu cynnig ar gyfer gweithgaredd mewn maes arbenigol a ddewisir (mae'r opsiynau i'w gweld isod) ynghyd

ag amserlen ymarferol ar gyfer cyflawni a gwerthuso eu gweithgareddau, gan eu galluogi i amlinellu a diffinio'n hyderus lwybrau penodol eu prosiect ac allbynnau.

Cyfrifoldeb pob myfyriwr unigol yw trafod cysylltiadau allanol (o ran pobl, lleoliadau, cyfleoedd interniaeth ac ati) a sicrhau rhyngweithiad esmwyth rhwng amserlen y prosiect ac ymrwymadau eraill y Coleg. Bydd disgwyl i fyfyrwyr hefyd ystyried materion moesegau a risg fel sy'n briodol i'w maes diddordeb.

Dylai natur y prosiect fod yn sylweddol ac uchelgeisiol, gan adlewyrchu disgwyliadau modiwl BMus blwyddyn olaf. Dylai'r cynnig gyd-fynd â disgwyliadau proffesiynol yn y maes arbenigol a defnyddio ystod eang o sgiliau trosglwyddadwy perthnasol. Dylai myfyrwyr geisio gwneud hwn yn brosiect allanol, gydag effaith ar y byd real.

Bydd cyfres o seminarau trosfwaol yn cynorthwyo myfyrwyr i ddeall y ffyrdd mwyaf effeithiol i gynnig a rheoli eu prosiectau, yn ogystal â rhoi fframwaith ar gyfer myfyrion systematig a gwerthuso wedi hynny. Ochr yn ochr â chyflwyniad eu deunydd wedi'i gwblhau (fel y nodir isod), asesir myfyrwyr ar ddogfennau eu prosiect, sy'n egluro eu man cychwyn a gwerthuso'u siwrnai. Bydd y cyflwyniad olaf hwn yn cynnwys portffolio o ddeunydd cefnogi, y cytunir ar ei gynnwys ymlaen llaw gyda Thiwtor y Modiwl.

Darperir cefnogaeth ar gyfer llinynnau arbenigol astudio, e.e. perfformio, ymchwil, addysgu, arfer cyfranogol, trwy fynediad at aelodau staff perthnasol i weithredu fel mentoriaid.

Mae'r modiwl hwn ar gael yn y meysydd gweithgaredd canlynol:

- Prosiect Perfformiad Unawdol
- Prosiect Perfformiad Cydweithredol
- Ymarfer fel Ymchwil
- Dyfeisio Creadigol
- Cyfarwyddyd Cerddorol
- Addysgu Dawn Artistig
- Cerddoriaeth yn y Gymuned/Arfer Cyfranogol
- Prosiectau Digidol
- Prosiect Seiliedig ar Ddiwydiant
- Prosiect Cyfansoddi
- Prosiect Cyfnewid Ryngwladol

Mae manylion pellach ynglŷn â gofynion a disgwyliadau pob llinyn ar gael yn Llawlyfr y Modiwl.

### **Prosiect Ymchwil Mawr**

Modiwl Dewisol: 40 Credyd  
Asesiad: 100% Ysgrifenedig

Bydd y modiwl hwn yn arwain a chefnogi'r gwaith o gynllunio, paratoi, cynhyrchu a chyflwyno'n ysgrifenedig ymchwil yn ymwneud â maes sydd o ddiddordeb cerddorol arbenigol i'r myfyriwr. Dilyniir gweithdai cychwynnol mewn methodoleg ymchwil gan diwtorialau unigol a seminarau grŵp. Ar ôl cyflwyno crynodeb 300 gair, rhaid trafod pynciau gydag Arweinydd y Modiwl er mwyn eu cymeradwyo; yna pennir tiwtoriaid unigol a llunnir amserlen o sesiynau goruchwylio. Bydd gofyn i fyfyrwyr gyflwyno adroddiadau ar eu cynnydd mewn seminarau ymchwil ôl-radd dynodedig.

### **Prosiect Ymchwil**

Modiwl Dewisol: 20 Credyd  
Asesiad: 100% Ysgrifenedig

Bydd y modiwl hwn yn arwain a chefnogi'r gwaith o gynllunio, paratoi, cynhyrchu a chyflwyno'n ysgrifenedig ymchwil yn ymwneud â maes sydd o ddiddordeb cerddorol arbenigol i'r myfyriwr. Dilyniir gweithdai cychwynnol mewn methodoleg ymchwil gan diwtorialau unigol a seminarau grŵp. Ar ôl cyflwyno crynodeb 300 gair, rhaid trafod pynciau gydag Arweinydd y Modiwl er mwyn eu cymeradwyo; yna pennir tiwtoriaid unigol a llunnir amserlen o sesiynau goruchwylio. Bydd gofyn i fyfyrwyr gyflwyno adroddiadau ar eu cynnydd mewn seminarau ymchwil ôl-radd dynodedig.

### **Darlith-ddatganiad**

Modiwl Dewisol: 40 Credyd  
Asesiad: 80% Darlith-ddatganiad, 20% Asesiad Hunanfyfyriol

Bydd y modiwl hwn yn arwain a chefnogi'r gwaith o gynllunio, paratoi, cynhyrchu a chyflwyniad ymchwil yn ymwneud â maes sydd o ddiddordeb cerddorol arbenigol i'r myfyriwr. Arweinir myfyrrwyr yn eu dewis o bwnc a repertoire cysylltiedig, ac wedi hynny byddant yn gweithio'n annibynnol i ddyfeisio eu cyflwyniad, a ddylai ddefnyddio cefnogaeth dechnolegol briodol. Yn dilyn y ddarlith-ddatganiad, bydd y myfyrrwyr yn myfyrio'n feirniadol ar pa mor effeithiol oedd eu gwaith.

### **Sgwrs Cyn Perfformiad**

Modiwl Dewisol: 20 Credyd  
Asesiad: 80% Sgwrs Cyn Perfformiad, 20% Asesiad Hunanfyfyriol

Bydd y modiwl hwn yn arwain a chefnogi'r gwaith o gynllunio, paratoi, cynhyrchu a chyflwyniad ymchwil yn ymwneud â sgwrs cyn perfformiad a gynhelir fel arfer cyn perfformiad cyhoeddus yn y Coleg ac a fydd yn nodweddiadol yn agored/ar gael i'r cyhoedd. Cefnogir myfyrrwyr yn natblygiad eu sgiliau ymchwil a chyflwyno gyda sesiynau seminar cychwynnol. Yn dilyn hyn byddant yn gweithio'n annibynnol i ddyfeisio cyflwyniad, gyda goruchwylydd wedi'i ddynodi i gefnogi'r broses hon. Yn dilyn y sgwrs, bydd myfyrrwyr yn myfyrio'n feirniadol ar effeithiolrwydd eu gwaith er mwyn llywio datblygiad personol.

### **Cynllunio a Rheolaeth yn y Celfyddydau**

Modiwl Dewisol: 20 Credyd  
Asesiad: 100% Portffolio

Trwy gyfres o seminarau a gweithdai, bydd myfyrrwyr yn datblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i weithio fel cynhyrchydd annibynnol, yn cynllunio a churadu cynnig ar gyfer gŵyl undydd seiliedig ar gerddoriaeth. Bydd dosbarthiadau seminar yn edrych yn fanwl ar amrywiaeth o faterion ac ystyriaethau allweddol ar gyfer cynllunio prosiect, gan gynnwys:

- Ffynonellau cyllido
- Curadu/rhaglennu gŵyl
- Cyllidebu prosiect
- Cynllunio digwyddiad
- Cynllunio ymgyrch farchnata

Gan gymhwysu'r sgiliau y maent wedi'u dysgu, bydd myfyrrwyr yn defnyddio eu dychymyg artistig i ddyfeisio, cynllunio, a dogfennu digwyddiad creadigol, gwreiddiol o'u dewis eu hunain.

### **Mentrau Newydd**

Modiwl Dewisol: 20 Credyd  
Asesiad: 50% Model Canfas, 50% Cynnig Prosiect

Bydd myfyrrwyr yn cymryd rhan mewn cwrs byr, wedi'i gyflwyno gan staff Rheolaeth yn y Celfyddydau, sy'n edrych ar sut i ddatblygu a mireinio syniad entrepreneuriaidd, gan ymchwilio'r meysydd canlynol:

- Sefydlu menter newydd – y cysyniad o entrepreneuriaeth greadigol
- Creu'r syniadau gorau a marchnadoedd posibl
- Troi eich syniad yn fodel busnes
- Rhagweld llwyddiant
- Rhannu model canfas a thrafodaeth

Yna bydd myfyrrwyr yn datblygu eu menter ymhellach gyda goruchwyliaeth unigol, gan ganolbwyntio ar feithrin y sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyflwyno'r syniad yn effeithiol a derbyn adborth gan banel o entrepreneuriaid. Dylai'r cyflwyniad fynd i'r afael â materion cynaliadwyedd, amrywiaeth a chynhwysiant, yn ogystal â dangos dull arloesol.

### **Ysgrifennu ar gyfer Cerddoriaeth**

Modiwl Dewisol: 20 Credyd  
Asesiad: 100% Portffolio

Bydd y modiwl hwn yn rhoi cyfle i ddatblygu hyder, profiad a mireinio arddulliau ysgrifennu ar gyfer gwahanol ddibenion cerddorol. Bydd y modiwl a hunangyfarwyddir hwn yn galluogi myfyrwyr i gynllunio, paratoi, cynhyrchu a chyflwyno'n ysgrifenedig bortffolio o gynnyrch a ddewisir i adlewyrchu eu diddordebau unigol a chyfathrebu safbwyntiau beirniadol mewn ystod o bynciau cysylltiedig â cherddoriaeth. Gall myfyrwyr nodi ac ymgymryd â thasgau a ddewisir, megis nodiadau rhaglen, adolygiadau o berfformiadau neu erthyglau sy'n mynegi dadleuon beirniadol mewn meysydd o ddiddordeb cerddorol unigol. Bydd y modiwl yn herio myfyrwyr i ymchwilio syniadau a safbwyntiau soffistigedig, gan ymateb i ystod o ffynonellau ac ysgogiadau, ac egluro amrywiaeth o faterion cyfoes, cerddolegol a materion yn ymwneud â pherfformio mewn amrywiaeth o gyd-destunau ysgrifenedig.

### **Portffolio Creadigol Mawr**

Modiwl Dewisol: 40 Credyd  
Asesiad: 100% Portffolio

Mae'r modiwl hwn yn rhedeg drwy gydol y flwyddyn academiaidd ac yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ddatblygu ymhellach eu sgiliau cyfansoddi, trefnu ac offeryniaeth a chynhyrchu portffolio sylweddol o weithiau gwreiddiol gyda recordiadau i gyd-fynd â hwy. Yn nodweddiadol bydd y portffolio yn cynnwys DAU ddarn o waith mawr a THRI darn llai. Arweinir myfyrwyr hefyd i gynhyrchu beirniadaeth ysgrifenedig yn canolbwyntio ar werthuso eu prosesau creadigol a'r canlyniadau.

### **Portffolio Creadigol**

Modiwl Dewisol: 20 Credyd  
Asesiad: 100% Portffolio

Mae'r modiwl hwn yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr ddatblygu ymhellach eu sgiliau cyfansoddi, trefnu, offeryniaeth neu recordio a chynhyrchu portffolio o weithiau gwreiddiol gyda recordiadau, neu bortffolio o recordiadau gyda sylwebaeth feirniadol. Arweinir myfyrwyr hefyd i gynhyrchu beirniadaeth ysgrifenedig yn canolbwyntio ar werthuso eu prosesau creadigol a'r canlyniadau.